

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL **ANFFURFIOL**  
9 Gorffennaf 2015 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Ifor Dylan Williams, Rhys Pugh,  
Cadeirio: Erddyn Davies  
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

Gan nad oedd cworwm, ni allasid cynnal cyfarfod ffurfiol. Fodd bynnag, penderfynwyd cynnal cyfarfod a tyhrafod materion yn anffurfiol. **Cofnodion anffurfiol** yw'r rhain felly.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ed Huws, Geraint R. Jones, Ian Jones, Dafydd Iwan, Emyr Williams, Chris Hughes, Sioned Williams

**2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd. Cynnig: Rhys Pugh  
Eilio: Ifor Dylan Williams

**3. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**3.1 Baw cŵn a thipio slei bach Lôn Groes**

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Mae arwyddion yn rhybuddio rhag baeddu gan gŵn wedi eu gosod.

Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu glanhau'r safleoedd parcio o fwsog, sbwriel ac yn torri'r drain. Bydd hynny yn ystod yr wythnosau nesaf, pan fydd y Gang Cymunedol yn galw heibio'r pentref.

**3.2 Mainc Llanfaglan**

Mae'r Clerc wedi gofyn i Wyn Williams baentio'r fainc, edrych ar sefyllfa'r chwyn, a selio'r tyllau ble mae sgriwiau yn y fianc er mwyn rhwystro pydredd.

Mae Wyn Williams wedi dechrau'r gwaith a bydd yn gorffen y gwaith erbyn diwedd yr haf.

### **3.3 Cyfethol a chynrychiolaeth ar Lywodraethwyr Ysgol Bontnewydd**

Mynegodd y Cynghorydd Rhys Pugh ei fwriad i ymddiswyddo gan ei fod yn symud i fyw i ardal Porthmadog.

Eglurodd y Clerc y broses gyfethol, gan nodi fod yn rhaid i Gyngor Gwynedd ddechrau'r broses drwy hysbysebu'r hawl i drigolion lleol gynnal etholiad os oes 10 am wneud hynny. Yn absenoldeb unrhyw gais am etholiad yna gellir cyfethol.

Gan fod y Cynghorydd Rhys Pugh yn cynrychioli 'r Gyngor Cymuned ar Lywodraethwyr Ysgol Bontnewydd, bydd angen ystyried pa gynrychiolydd fydd yn cymryd ei le.

## **4.MATERION ARIANNOL**

### **4.1 Cyflog a chostau clerics Mehefin 2015**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £253.18

**Cyfanswm Net** £211.58

**4.2** Costau postio £1.62

**4.3** Talu eto rhodd Ysgol Gynradd Bontnewydd, (Eitem 6.2 Ebrill 2015), £250 a chostau sefydlu gwefan, (Eitem 5.6 Mai 2015), £270.00.

**4.4** Balans yn y banc 9 Gorffennaf 2015 £5,798.53

## **5. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill**

Cais cynllunio C15/0671/19/LL

Codi wal ffin 2m o uchder, Fron Deg, 31 Glanrafon, Bontnewydd

Trafodwyd y cais a doedd neb yn gwrthwynebu

## **6. GOHEBIAETH**

- Ymgynghoriad llyfrgelloedd Gwynedd
- Gwynedd Ni
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- Llythrau diolch gan Gylch Meithrin, Hwyl y Bont a'r Urdd

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth

## **7. MATERION ERAILL**

### **7.1 Parcio Siop Mc Coll's**

Mae pryder am geir yn parcio o flaen siop Mc Coll's. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn iddynt ystyried y mater.

### **7.2 Lleu a phapurau Cymraeg yn y Swyddfa Post/Mc Coll's**

Nid yw Lleu na phapurau Cymraeg megis Golwg a'r Cymro yn cael eu gwerthu yn siop y Swyddfa Bost newydd. Y Clerc i ysgrifennu at McColl's i ofyn iddynt gael eu gwerthu yno.

### **7.3 Lôn Groes – Arwydd Rhes Libanus/linnell wen/torri gwrychoedd a gordyfiant**

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi gosod arwydd newydd ar gyfer Rhes Libanus. Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa Cyngor Gwynedd a gofyn pryd y bydd yr arwydd yn cael ei osod.

Bu i'r Cynghorydd Gwyneth Thomas nodi fod rhai ceir sy'n parcio yn y llefydd parcio yn Lôn Groes yn gwneud hynny gyda'r ceir yn ymestyn allan ar y lôn. Gofynnodd a fedrai'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd osod llinellau gwyn ar fynediad pob un o'r meysydd parcio, er mwyn lleddfu'r broblem.

Mae gordyfiant yn parhau ar hyd y lôn ac nid yw gang cymunedol Gwynedd wedi bod yno yn gwneud y gwaith fel yr addewidiwyd.

### **7.4 Cylchdro Glan Beuno a'r llif traffig**

Disgwylir adroddiad gan yr Asiantaeth Priffyrdd yn dilyn y newid i drefn ffordd a gymerodd lle yn ddiweddar.

### **7.5 Ffordd osgoi Bontnewydd**

Cododd y Cynghorydd Erddyn Davies y pwyntiau canlynol

1. Ceir nifer o enghreifftiau o syrfewyr wedi bod yn mynd ar dir yn lleol heb ofyn caniatâd. Yn aml mae offer/cyfarpar wedi ei osod ar y tir heb unrhyw eglurhad o gwbl.
2. Deallir fod data sŵn wedi bod yn cael ei gasglu yn Llanfaglan. Fyddai'n bosibl cael diweddariad ar y data a gasglwyd, ymhle y'i casglwyd a pha ddefnydd y bwriedir ei wneud ohono.
3. Ydy hi'n wybyddus pryd yn 2015 y bydd y Datganiad Amgylcheddol yn barod? Fydd y datganiad yn ateb pryderon a godwyd o ran effaith y ffordd ar

ddraenio naturiol caeau, ac unrhyw effaith y gall y “Lagoons” arfaethedig eu cael ar lif afonydd lleol? Hefyd, fydd yr asesiad yn edrych ar unrhyw risg o lifogydd yn Stâd Glanrafon, Bontnewydd wrth i ddŵr sy'n cael ei ddisbyddu gan y ffordd gael ei yrru yn ôl ar hyd afon Gwyrfai i gyfeiriad Bontnewydd?

4. Ydy hi'n bosibl ystyried gostwng lefel y ffordd newydd mewn ambell i le, e.e. yn hytrach na bod y ffordd newydd yn mynd dros Lôn Eifion mewn ambell i fan, bod y ffordd yn mynd oddi tani?
5. Ydy hi'n gyffredinol bosibl gostwng lefel y ffordd newydd o ddyweder rhyw ddwy fetr drwy ostwng lefel y ffordd presennol yn ardal Bontnewydd, fel bod uchder y ffordd newydd wedyn yn is ac yn llai gweledol?
6. A oes bwriad i gau ffordd Llanfaglan - Bontnewydd am gyfnod yn ystod y gwaith adeiladu? Os oes, fydd y ffordd ar gau i gerddwyr hefyd?
7. A fydd pont yn cael ei gosod yn Lôn Goch Llanfaglan, er mwyn medru croesi'r ffordd newydd?

Y Clerc i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am atebion i'r pwyntiau isod

## **7.6 Ffordd Bontnewydd i Lanfaglan**

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwella'r ffordd rhwng Bontnewydd a Llanfaglan yn ddiweddar, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am wneud y gwaith.

## **7.7 Her Gwynedd**

Mynychodd Erddyn Davies a Dafydd Iwan gyfarfod Her Gwynedd a gynhaliwyd ar Orffennaf 2 2015. Darparodd Dafydd Iwan adroddiad ysgrifenedig ar y cyfarfod. Mae yna doriadau mawr i'w gwneud gan Gyngor Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf fydd yn golygu gosod mwy o gyfrifoldeb ar aelodau'r cyhoedd a Chynghorau Cymuned.

## **8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Medi 3 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd